# Cyngor o dan y dynodiad
# Rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant

## Awst 2025

## Cyflwyniad

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ('y Coleg') i gynghori Medr ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg o dan adran 9(1) Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ('Deddf 2022').
2. Mae Medr yn datblygu system newydd i reoleiddio darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant. Y cam cyntaf oedd ymgynghori ar ddull a fframwaith rheoleiddio (Mai–Gorffennaf 2025).
3. Mae'r Coleg wedi cynnig sylwadau penodol ar y dull a'r fframwaith rheoleiddio arfaethedig yn ei ymateb i'r ymgynghoriad.
4. Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn cynnig safbwynt ehangach ar y dull rheoleiddio ac yn cynghori Medr ynglŷn â'i gymhwyso mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'n nodi beth byddai'r Coleg yn disgwyl ei weld yn yr amod rheoleiddio am y Gymraeg ac yn cynghori Medr i ddatblygu canllawiau atodol maes o law.
5. Mae'r Coleg yn ddiolchgar i Medr am y trafodaethau rheolaidd ac adeiladol sydd wedi digwydd ers arwyddo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddau gorff ym mis Awst 2024.

## Cyd-destun

6. Ym mis Medi 2024 cyflwynodd y Coleg Gyngor Cychwynnol (CCC.2024.i) i Medr. Mae'n gyngor lefel uchel, trosfwaol sy'n datgan:

   *Gweledigaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw bod pob dysgwr yn defnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg yn ystod eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol.*

   Mae'r Cyngor Cychwynnol yn cynghori Medr i ymrwymo yn ei Gynllun Strategol cyntaf i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol gyfan er mwyn cyflawni'i ddyletswyddau strategol a'i flaenoriaethau strategol mewn perthynas â'r Gymraeg.
7. Ym mis Chwefror 2025 cyhoeddodd Medr ei Gynllun Strategol, sydd yn gosod y Gymraeg fel Nod Strategol ac yn nodi bwriad i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg. Ym mis Mehefin 2025 cyhoeddodd Medr Gynllun Gweithredu sydd yn nodi bwriad i ddatblygu'r Cynllun Cenedlaethol erbyn Awst 2026, ac i lunio amod rheoleiddio penodol ar y Gymraeg. Mae'r Coleg yn croesawu hyn oll yn fawr.
8. Ers cyflwyno'r Cyngor Cychwynnol, cafwyd eglurder bod y sector addysg drydyddol o fewn cwmpas y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg fydd yn cael ei datblygu gan Weinidogion Cymru yn sgil pasio Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Mae hyn yn rhoi ysgogiad ychwanegol i gynllunio darpariaeth addysg drydyddol Gymraeg a dwyieithog mewn ffordd strategol. Yn ei Gynllun Gweithredu, mae Medr yn nodi bwriad i asesu effaith y Ddeddf ar ei amcanion strategol.

## Dull rheoleiddio Medr

9. Mae Cyngor Cychwynnol y Coleg yn nodi ei bod yn allweddol bod Medr yn defnyddio'i rym rheoleiddio yn bwrpasol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg:

   *Wrth i Medr ddatblygu amodau rheoleiddio, bydd disgwyl i ofynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg fod yn ganolog. … I gyflawni*

*Dyletswydd Strategol 9(1)(b) ('Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg') a Dyletswydd Strategol 9(1)(c) ('annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg'), mae'n rhaid i ddarpariaeth gael ei theilwra yn unol ag anghenion y dysgwyr, blaenoriaethau strategol y darparwyr, gofynion gweithluoedd a natur cymunedau lleol. Geilw hyn am gynllunio cenedlaethol a sefydliadol a defnydd llawn o bwerau rheoleiddio Medr mewn perthynas â'r Gymraeg.*

10. Dymuna'r Coleg weld trefn reoleiddio sy'n hwyluso cyflawni amcanion y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, gan annog cynllunio cenedlaethol a sefydliadol a chaniatáu gosod targedau ar ddarparwyr perthnasol, ynghyd â phrosesau monitro ac atebolrwydd cadarn. Dan drefn o'r fath, byddai cyrff llywodraethol darparwyr yn perchnogi strategaethau eu sefydliadau mewn perthynas â'r Gymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.
11. Mae'r dull a'r fframwaith rheoleiddio a gynigir gan Medr yn ategu amcanion y Coleg ar gyfer y Gymraeg ac yn addas i bwrpas cefnogi Medr i gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Coleg yn croesawu bod y Gymraeg yn Amod Cofrestru Parhaus ac yn falch o weld Medr yn ymateb yn gadarnhaol i'w gyfrifoldebau sylweddol Medr mewn perthynas â'r Gymraeg o dan Ddeddf 2022.
12. Bydd Medr yn annog darparwyr i arloesi ac i sicrhau gwelliant parhaus er mwyn cyfrannu at ragoriaeth system addysg drydyddol Cymru. Mae'r Coleg yn dymuno gweld darparwyr yn defnyddio'r amod rheoleiddiol fel fframwaith i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac i hyrwyddo'r galw amdani yn rhagweithiol.
13. Mae Medr yn bwriadu gweithredu dull rheoleiddio cymesur sy'n seiliedig ar risg. Y risgiau mwyaf pellgyrhaeddol os nad yw darparwyr yn cydymffurfio â'r amod cofrestru parhaus am y Gymraeg yw:
    - bod amcanion y Cynllun Cenedlaethol ddim yn cael eu cyflawni, a Medr felly yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau strategol o dan Ddeddf

2022, y blaenoriaethau strategol a osodwyd arno gan Weinidogion Cymru, ac amcanion ei Gynllun Strategol;
- bod amcanion Cymraeg 2050 yn cael eu methu o ganlyniad i ddiffyg cynnydd yn y sector addysg drydyddol.

14. Mae'r rhain yn risgiau difrifol i ddarparwyr, i Medr ac i Lywodraeth Cymru. I'w lliniaru, mae'r Coleg yn cynghori Medr i gymryd agwedd ragweithiol iawn tuag at fonitro cydymffurfiaeth â'r amod am y Gymraeg ac i weithredu'n syth os oes unrhyw bryderon. Rhaid cydnabod hefyd y bydd ffactorau megis datblygiadau yn y system addysg statudol o ganlyniad i weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg yn dylanwadu ar y cynnydd a wneir gan ddarparwyr, ac mae angen cadw hyn mewn cof.
15. Trown yn awr at ddau fan penodol yn nogfennaeth ddrafft Medr ar reoleiddio lle mae'r Gymraeg yn ystyriaeth. Cynghorwn Medr i roi ystyriaeth bellach i'r rhain:
    - **Yr amod cofrestru ynghylch darparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr (Fframwaith Rheoleiddio, tud. 42):** dylid sicrhau bod natur ieithyddol y cwrs yn cael ei nodi;
    - **Ffynonellau data ansawdd (Fframwaith Ansawdd, para. 57):** ar gyfer pob ffynhonnell data a restrir, mae'n bwysig gallu rhannu'r data fesul cyfrwng iaith astudio a/neu allu ieithyddol y dysgwr er mwyn cael darlun cyflawn o unrhyw faterion ansawdd sy'n codi. Rydym yn gwerthfawrogi, fodd bynnag, efallai nad yw'r data hyn gan Medr ar hyn o bryd.

## Yr amod am y Gymraeg

16. Mae amcan a dull rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg wedi'u nodi yn Null Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd Medr (2.6). Bydd Medr yn cyhoeddi amod rheoleiddio am y Gymraeg ym mis Ebrill 2026, a bydd yn dod yn weithredol ym mis Awst 2026.
17. **Amcan rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg:** mae'r Coleg o'r farn bod amcan rheoleiddio mewn perthynas â'r Gymraeg yn ehangach na'r geiriad presennol, felly cynghorwn y dylid ei gryfhau fel a ganlyn:

> ***Amcan rheoleiddio:*** *Mae mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ansawdd, ynghyd ag anogaeth a chefnogaeth i gyfranogi ohoni, yn helpu i ddiogelu'r Gymraeg ac yn ategu dyhead Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg.* [Addasiadau a gynghorir wedi'u tanlinellu.]

18. **Dull rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg:** mae'r Coleg yn croesawu'r dull rheoleiddio arfaethedig hwn, yn enwedig y bwriad i reoleiddio mewn ffordd sy'n 'herio darparwyr i ehangu a gwella darpariaeth'. Drwy ddefnyddio'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg fel fframwaith, gall Medr ddefnyddio ei rym rheoleiddio yn bwrpasol er mwyn cyflawni amcanion cenedlaethol strategol sydd wedi eu cytuno gan ystod o randdeiliaid. Serch hyn, mae'r Coleg yn cynghori y dylid cryfhau'r geiriad fel y nodir isod er mwyn llawn adlewyrchu dyletswyddau Medr mewn perthynas â'r Gymraeg:

> ***Dull rheoleiddio:*** *Bydd Medr yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Gan ddefnyddio'r fframwaith hwnnw fel sail, byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n herio darparwyr i ehangu a gwella darpariaeth, o ran ei hansawdd a'i hygyrchedd; i annog y galw am y ddarpariaeth honno a chyfranogiad ynddi; a chan hefyd hybu mwy o ddefnydd o'r iaith ar draws pob amgylchedd trydyddol.* [Addasiad a gynghorir wedi'i danlinellu.]

19. Yn wahanol i rai o'r amodau rheoleiddio eraill, mae pob darparwr yn dechrau o fan gwahanol mewn perthynas â'r Gymraeg, felly rhaid i'r dull rheoleiddio ganiatáu darparwyr i ymateb i'w sefyllfa bresennol. Mae'r Coleg yn cydnabod bod y gofynion rheoleiddio a awgrymir yn mynd gam ymhellach nag yn y gorffennol, ac mae hyn yn adlewyrchu'r dyletswyddau sydd wedi eu gosod ar Medr yn Neddf 2022. Mae'n cyd-fynd hefyd â'r model fydd yn cael ei osod ar y sector addysg statudol yn sgil pasio Deddf y Gymraeg ac Addysg o symud sefydliadau ar hyd continwwm iaith, beth bynnag fo eu man cychwyn.

20. **Strategaethau darparwyr:** mae'r Coleg yn cynghori y dylai'r amod am y Gymraeg nodi bod disgwyl i bob darparwr fod â strategaeth ar gyfer y

Gymraeg sydd wedi'i chytuno gan gorff llywodraethol y darparwr. Dylai Medr osod disgwyliad fod pob strategaeth unigol yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ac yn cynnwys:

- Allbynnau mesuradwy ar gyfer cynyddu darpariaeth Gymraeg
- Allbynnau mesuradwy ar gyfer cynyddu cyfranogiad mewn addysg Gymraeg
- Cynllun ar gyfer cynyddu a chynnal gweithlu digonol i ddarparu'r addysg honno
- Ystyriaeth o gynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn caniatáu cynllunio strategol ar draws Cymru
- Lle bo'n berthnasol, disgwyliad i gyfrannu at hybu ymchwil cyfrwng Cymraeg
- Lle bo'n berthnasol, disgwyliad i ddarparu'r Gymraeg fel pwnc
- Ystyriaeth i faterion gweinyddol megis hyd y strategaeth a'r gofynion adrodd a monitro

21. **Ymgysylltu â darparwyr:** mae'r Gymraeg yn amod rheoleiddio newydd ac yn un lle na ellir mesur cynnydd ar sail un neu ystod gyfyng o ddangosyddion yn unig. Mae'r Coleg felly yn cynghori Medr i fabwysiadu model ymgysylltu cyfannol ac agos – Model 2 yn y Fframwaith Reoleiddio yr ymgynghorir arni – wedi ei deilwra ar gyfer pob darparwr. Cynghorwn yn ogystal bod Medr yn parhau i ddatblygu perthynas agos gyda'r Coleg, fel y gall y Coleg rybuddio Medr yn gynnar ynghylch unrhyw bryderon neu debygolrwydd y bydd darparwr yn methu â chydymffurfio.
22. **Gosod targedau:** disgwylia'r Coleg y bydd y Cynllun Cenedlaethol yn darparu fframwaith i ddarparwyr i osod targedau uchelgeisiol. Dylai'r amod ar y Gymraeg nodi sut y bydd disgwyl i ddarparwyr ddangos eu bod yn symud yn gyson tuag at eu targedau. Mae'r Coleg yn cynghori bod hyn cael ei drafod ymhellach maes o law mewn perthynas â monitro cynnydd y Cynllun Cenedlaethol. Petai Medr, er enghraifft, yn ymrwymo i gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol ar y Cynllun Cenedlaethol, byddai cyfleoedd craffu ac atebolrwydd yn cael eu creu.

23. **Monitro:** mae'r Coleg yn croesawu bwriad Medr i ddefnyddio ystod o weithgareddau monitro. Mae'r Coleg yn dymuno cydweithio â Medr i sicrhau lle bo modd bod prosesau monitro'r ddau gorff yn alinio er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr ac osgoi dyblygu. Mae'r Coleg yn asesu cynnydd darparwyr yn erbyn targedau a osodwyd ganddo yn flynyddol a byddai'n awyddus i drafod sut y gall Medr ddefnyddio'r dystiolaeth hon wrth fonitro cydymffurfiaeth â'r amod am y Gymraeg.
24. **Ymchwil:** mae gan Medr gyfrifoldeb o dan Ddeddf 2022 i hybu 'gwneud gwaith ymchwil ac arloesi a gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaith ymchwil ac arloesi gan bersonau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.' Mae'r Coleg yn cynghori Medr i ystyried defnyddio'r amod rheoleiddio am y Gymraeg i osod disgwyliad ar ddarparwyr perthnasol i gyfrannu at hyn.
25. **Y Gymraeg fel pwnc:** yng ngoleuni'r sylw penodol yn Neddf y Gymraeg ac Addysg i'r Gymraeg fel pwnc, mae'r Coleg yn cynghori bod Medr i ystyried defnyddio'r amod rheoleiddiol i osod disgwyliad ar ddarparwyr perthnasol i gyfrannu at sicrhau bod modd i bob dysgwr astudio'r Gymraeg mewn ffordd apelgar.

## Canllawiau atodol

26. Bydd Medr yn ymgynghori ar yr amod am y Gymraeg yn ystod hydref 2025. Ni fydd y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg wedi'i gyhoeddi bryd hynny. Gan y bydd disgwyl i ddarparwyr gyfrannu at gyflawni amcanion y Cynllun Cenedlaethol er mwyn cydymffurfio â'r amod am y Gymraeg, mae'r Coleg yn cynghori Medr i ddarparu canllaw atodol ynglŷn â'r amod wedi i'r Cynllun Cenedlaethol gael ei gyhoeddi.
27. Bydd y Coleg yn darparu cyngor pellach i Medr i gefnogi'r gwaith o lunio'r canllaw.
28. Mae'r Coleg yn cynghori y gall fod hefyd angen canllaw ar gyfer datblygu darpariaeth yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg arfaethedig. Bydd y Coleg yn barod i gynghori ymhellach yn ôl yr angen.